Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Cynllun Dirprwyo Cyngor y Brifysgol 2022/23

## Cyflwyniad a Chwmpas

1. Mae'r Cynllun Dirprwyo hwn yn ceisio amlinellu ble y gorwedd yr awdurdod i wneud penderfyniadau yn enw, neu ar ran, Cyngor Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, a ble mae'r awdurdod hwn wedi'i ddirprwyo a ble y gellir ei ddirprwyo.

2. Ni all unrhyw gynllun o'r fath fod yn gwbl gynhwysfawr. Fodd bynnag, trwy nodi ble y gorwedd yr awdurdod neu ble mae wedi'i ddirprwyo, mae'r Cynllun yn gosod fframwaith a fydd yn fodd o ddatrys materion eraill. Bydd Clerc y Cyngor yn cynghori ar faterion nad ydynt yn cael sylw penodol yn y Cynllun.

3. Lluniwyd y Cynllun dan Siarter, Statudau ac Ordinhadau PCYDDS. Os bydd unrhyw anghysondeb rhwng y Cynllun a'r Siarter, y Statudau a'r Ordinhadau, yr olaf fydd yn cael blaenoriaeth. Mae'r Cynllun yn gysylltiedig â Rheoliadau Ariannol y Brifysgol ac nid yw wedi'i fwriadu i roi sylw i faterion sydd wedi'u nodi'n fanwl yn y Rheoliadau hynny. Mae'r egwyddorion dirprwyo ar faterion ariannol wedi'u nodi yn Ordinhad IV.

4. Bydd y Cyngor a'r sawl y mae pwerau wedi'u dirprwyo iddynt yn gweithredu bob amser o fewn gofynion Telerau ac Amodau Cyllid CCAUC a dogfen y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (CUC), *Higher Education Code of Governance.*

5. Mae'r Cynllun yn nodi cyfrifoldeb am y cam cymeradwyo terfynol wrth wneud penderfyniadau a'r unigolyn neu'r corff y dirprwywyd hwn iddo lle bo'n briodol. Nid yw'r Cynllun yn nodi'r camau sy'n arwain at y cam o wneud penderfyniadau.

6. Os bydd digwyddiad mawr neu argyfwng, mae'n bosibl y bydd angen gwneud penderfyniadau trwy eithriad y tu allan i arferion arferol. Mae awdurdodau a chyfrifoldebau penodol mewn amgylchiadau o'r fath wedi'u nodi yng Nghynllun Digwyddiadau Mawr y Brifysgol.

7. Rhaid i'r Cynllun gael ei adolygu a'i gymeradwyo gan y Cyngor yn flynyddol.

## Diffiniadau a therminoleg

8. Gall enwau'r pwyllgorau a theitlau swyddi newid o bryd i'w gilydd. Ni fydd hyn yn dirymu pwerau'r pwyllgorau neu'r deiliaid swyddi olynol cyfatebol.

9. Mae'n ddefod ac yn arfer o fewn y Brifysgol i ddefnyddio'r term 'aelodau'r Cyngor' a defnyddir yr ymadrodd hwn trwy gydol y ddogfen hon. At y dibenion hyn mae iddo'r un ystyr â 'llywodraethwyr' ac 'ymddiriedolwyr yr elusen'.

10. Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) yn golygu'r Brifysgol fel cwmni â Siarter Frenhinol ac elusen.

## Amodau

11. Mewn amgylchiadau eithriadol, ceidw'r Cyngor a'r Is-Ganghellor yr hawl i gymeradwyo unrhyw fater a fyddai fel arfer yn cael ei ddirprwyo ganddynt i eraill o fewn y Cynllun. Caiff unrhyw ddigwyddiadau o'r fath eu cofnodi trwy'r cofnodion priodol.

12. Petai mater neu benderfyniad yn codi sydd o fewn awdurdod dirprwyedig unigolyn neu gorff, ond y mae mater yn ymwneud ag enw da neu fater sensitif, gwleidyddol, neu fater tebyg arall yn gysylltiedig ag ef, dylid cyfeirio'r penderfyniad i'r lefel briodol (uwch fel arfer). Os oes amheuaeth ynghylch y lefel benderfynu briodol, dylid gofyn am gyngor gan Glerc y Cyngor yn y lle cyntaf.

13. Rhoddir pwerau gwirioneddol neu ddirprwyedig dim ond ar yr amod bod darpariaeth ariannol wedi'i gwneud yn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor.

**Swyddogaethau a Phwerau'r Cyngor**

14. Dan Erthygl XI o'r Siarter, caiff y Cyngor ddirprwyo'r cyfan neu unrhyw rai o'i swyddogaethau ac eithrio:

    (a) penderfynu ar gymeriad a chenhadaeth y Brifysgol, gan gynnwys pennu blwyddyn academaidd y Brifysgol a phenodi'r Is-Ganghellor;

    (b) y cyfrifoldeb dros sicrhau solfedd y Brifysgol a diogelu'i hasedau, gan gynnwys penodi archwilwyr, sefydlu Pwyllgor Archwilio a chymeradwyo cyfrifon archwiliedig blynyddol y Brifysgol;

    (c) llunio, newid, diwygio neu ychwanegu at y Siarter neu'r Statudau.

15. Dan Statud VI (2), rhaid i'r pwerau a'r dyletswyddau canlynol gael eu cyflawni'n uniongyrchol gan y Cyngor ac ni ellir eu dirprwyo:

    (a) Gweithredu fel corff llywodraethu'r Brifysgol.

    (b) Yn unol ag Erthygl XVI o'r Siarter, ychwanegu at neu ddiwygio Siarter y Brifysgol.

    (c) Yn unol ag Erthyglau XVII ac XVIII o'r Siarter, llunio, ychwanegu at, diwygio neu ddiddymu Statudau'r Brifysgol.

    (d) Llunio, ychwanegu at, diwygio neu ddiddymu Ordinhadau'r Brifysgol, ar yr amod nad yw'r Ordinhadau hynny yn anghydnaws â darpariaethau'r Siarter neu'r Statudau.

    (e) Penodi'r Llywydd a'r Is-lywydd.

    (f) Llywodraethu a rheoleiddio cyllid, cyfrifon, buddsoddiadau, eiddo, busnes a materion y Brifysgol, ac at y diben hwnnw penodi Bancwyr ac unrhyw swyddogion gweinyddol neu asiantau eraill y mae'n ymddangos yn fanteisiol eu penodi.

    (g) Cymeradwyo benthyca arian ar ran y Brifysgol ac at y diben hwnnw, os gwêl y Cyngor yn dda, morgeisio neu gyfnewid neu godi tâl yn erbyn holl eiddo'r Brifysgol, neu unrhyw ran ohoni, p'un a yw'n eiddo tirol neu bersonol, a rhoi sicrwydd arall o'r fath, p'un ai ar eiddo tirol neu bersonol neu fel arall, fel y gwêl y Cyngor yn dda.

    (h) Gweithredu fel ymddiriedolwyr ar gyfer unrhyw eiddo, etifeddiaeth, gwaddol, cymynrodd, neu rodd i gefnogi amcanion y Brifysgol.

    (i) Cymeradwyo gwerthu, prynu, cyfnewid, prydlesu a derbyn prydlesi o eiddo tirol a phersonol ar ran y Brifysgol.

    (j) Cymeradwyo'r datganiadau ariannol blynyddol.

(k) Penodi Archwilydd neu Archwilwyr i archwilio'r datganiadau ariannol a chyfrifon eraill y Brifysgol.

(l) Sicrhau bod yr ystâd yn ddigonol ar gyfer cyflawni amcanion y Brifysgol a chymeradwyo unrhyw strategaeth ystadau.

(m) Cymeradwyo cynlluniau strategol y Brifysgol.

(n) Monitro perfformiad a chynnydd y Brifysgol a'i gwneud yn ofynnol bod materion sy'n codi yn sgil y monitro hwn yn cael sylw.

(o) Penderfynu'n derfynol ar faterion polisi strategol yn ymwneud â staffio a chyflogaeth.

(p) Sefydlu Pwyllgor Dethol ar gyfer swydd Is-Ganghellor, a phenodi Is-Ganghellor.

(q) Goruchwylio, adolygu, cyfeirio'n ôl, rheoli, diwygio neu wahardd unrhyw weithred gan y Senedd a rhoi cyfarwyddiadau i'r Senedd.

(r) Dewis Sêl ac Arfbais ar gyfer y Brifysgol, a goruchwylio gwarchodaeth a defnydd o'r Sêl.

(s) Cymeradwyo cyfansoddiad Undeb y Myfyrwyr a, hyd y bo'n rhesymol ymarferol, sicrhau bod Undeb y Myfyrwyr yn gweithredu mewn modd teg a democrataidd a'i fod yn atebol am ei gyllid.

(t) Rhoi'r pŵer i lunio Rheoliadau'n ymwneud â materion gweinyddol neu academaidd, i'r Senedd, pwyllgorau'r Cyngor neu gyrff eraill y Brifysgol, dileu neu ddiwygio pŵer o'r fath, a diwygio, diddymu a dirymu unrhyw Reoliadau o'r fath.

16. Dan Statud VI.3, ac yn amodol ar ddarpariaethau Statud VI.2, mae gan y Cyngor yr awdurdod i ddirprwyo pwerau a dyletswyddau:

(a) i'r Is-Ganghellor, fel y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu;

(b) i'r Senedd, fel y rhagnodir gan Ordinhad;

(c) i'r pwyllgorau a sefydlir gan y Cyngor, fel y rhagnodir gan Ordinhad;

(d) i swyddogion eraill y Brifysgol, fel y rhagnodir gan Ordinhad.

17. Mae Ordinhad II, 7 (g) yn datgan y gall y Cyngor ddirprwyo swyddogaethau ac awdurdod ar yr amod:

(a) Na fydd y dirprwyo'n anghydnaws â thelerau Siarter, Statudau, Ordinhadau a Rheoliadau'r Brifysgol;

(b) Y nodir telerau'r awdurdod dirprwyedig yn ysgrifenedig ac yn eglur ar gyfer y dirprwy;

(c) Yn achos dirprwyo i Bwyllgor Sefydlog, y nodir yr awdurdod dirprwyedig yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor hwnnw, fel y'i cymeradwyir gan y corff perthnasol, neu drwy benderfyniad ar ran y corff sy'n dirprwyo.

**Dirprwyo i'r Is-Ganghellor**

18. Dan Erthygl IX o'r Siarter, yr Is-Ganghellor yw Prif Weithredwr, Prif Swyddog Academaidd a Gweinyddol, a Phrif Swyddog Cyfrifyddu'r Brifysgol a Chadeirydd y Senedd. Mae

ganddo ef/hi y pŵer i roi graddau, dyfarniadau ac anrhydeddau academaidd eraill y Brifysgol.

19. Dan Ordinhad, mae’r Cyngor wedi dirprwyo’r canlynol i’r Is-Ganghellor.

    (a) cynllunio tymor hir a thymor byr a dyrannu adnoddau i bob rhan o’r Grŵp Prifysgol ac am lunio cynlluniau’n unol â gofynion CCAUC.

    (b) dyrannu cyllidebau;

    (c) datblygu’r holl gynlluniau strategol a gweithredol; stiwardiaeth o’r holl adnoddau, cyfalaf a refeniw ariannol, o fewn y terfynau a bennir gan Ordinhad; a threfnu a rheoli’r holl adnoddau staff.

20. Dan Ordinhad, gall yr Is-Ganghellor ddirprwyo dyletswyddau a phwerau penodol i’r Dirprwy Is-Gangellorion, Pro Is-Gangellorion a Deoniaid.

**Dirprwyo i bwyllgorau sefydlog**

21. Mae pwyllgorau ffurfiol y Cyngor yn gweithredu dan awdurdod y Cyngor. Mae’r pwyllgorau, eu cysylltiadau a’u llinellau adrodd wedi’u nodi yn yr Ordinhadau a’r wybodaeth ategol. Cymeradwyir cylch gorchwyl y pwyllgorau gan y Cyngor a dylid ymgynghori ag ef yn rheolaidd i sicrhau bod y pwyllgor yn gweithredu o fewn ei awdurdod diffiniedig.

22. Mae’r dyletswyddau canlynol wedi’u dirprwyo i’r pwyllgorau gan y Cyngor:

| **Dyletswydd** | **Dirprwywyd i’r** |
|---|---|
| Cymeradwyo Rheoliadau Ariannol y Brifysgol, yn cynnwys y system reoli fewnol a geir yn y Rheoliadau Ariannol | Pwyllgor Archwilio a Risg, yn dilyn adolygiad gan y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad |
| Cymeradwyo holl ddogfennau cynllunio archwilio | Pwyllgor Archwilio a Risg |
| O fewn y gyllideb gyfalaf gyffredinol a gymeradwywyd gan y Cyngor, cymeradwyo:<br><br>(a) cynlluniau gwario ar gyfer prosiectau a enwyd o fewn y cynllun cymeradwy. Bydd hyn yn cynnwys disgresiwn i gytuno ar amrywiant o 10% ar y gyllideb (fesul prosiect), i ddarparu ar gyfer goblygiadau datblygu’r dyluniad a allai ddigwydd o fewn y flwyddyn ariannol;<br><br>(b) cynlluniau gwario ar gyfer prosiectau unigol ychwanegol hyd at uchafswm o £500,000. | Pwyllgor Ystadau |
| Pennu meini prawf ar gyfer penodi Cadeirydd, Is-gadeirydd ac aelodau eraill o’r Cyngor | Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu |

| | |
|---|---|
| Cymeradwyo enwebiadau am ddyfarniadau er Anrhydedd | Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu |
| Adolygu a phennu cyflogau, telerau ac amodau, a phan fo'n briodol, amodau diswyddo'r Is-Ganghellor, y Dirprwy Is-Gangellorion, y Pro Is-Gangellorion a Chlerc y Cyngor | Pwyllgor Taliadau |
| O fewn y gyllideb flynyddol gyffredinol a gymeradwywyd gan y Cyngor, cymeradwyo cynlluniau gwariant a/neu ddyrannu adnoddau a/neu wneud buddsoddiadau hyd at uchafswm o £500,000<br><br>Cymeradwyo tendrau dros £100,000 | Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad<br><br>Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad |
| Dileu dyledion drwg dros £100 hyd at uchafswm o £200,000, wedi'i gyflwyno fel cynnig dileu cyfanswm blynyddol | Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad |
| Cymeradwyo gweithdrefnau yn ymwneud â materion adnoddau dynol | Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad |
| Cymeradwyo setliadau cyflog a thâl blynyddol ar gyfer yr holl staff ar raddfeydd safonol | Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad |
| Cymeradwyo ceisiadau i ymddeol yn gynnar o fewn y polisi a osodwyd gan y Cyngor | Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad |

**Gweithredu gan y Cadeirydd**

23. Dan Ordinhad II, 8 (f) mae gan Gadeirydd y Cyngor (neu Is-gadeiryddion y Cyngor), mewn perthynas ag unrhyw fater y mae'r Cyngor neu unrhyw rai o'i bwyllgorau'n penderfynu arno, yr awdurdod i ystyried unrhyw fater sydd yn ei farn ef/hi:

    (a) yn gofyn am sylw ar unwaith; a

    (b) nad yw'n cyfiawnhau cynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor nac unrhyw rai o'i Bwyllgorau a fyddai'n ystyried y mater fel arfer; neu

    (c) sy'n fater o'r fath frys fel bod galw cyfarfod yn anymarferol.

24. Cyn arfer yr awdurdod hwn, dylai Cadeirydd y Cyngor ymgynghori ag Is-gadeiryddion y Cyngor, cadeirydd y pwyllgor perthnasol a'r Is-Ganghellor.

25. Rhoddir adroddiad ynghylch unrhyw weithredu gan Gadeirydd y Cyngor (neu, yn absenoldeb y Cadeirydd, gan Is-gadeirydd y Cyngor) i gyfarfod nesaf y Cyngor, gyda chadarnhad o'r broses a ddilynwyd.

**Defnydd o'r Sêl Gyffredin**

26. Yn unol ag Erthygl XI o'r Siarter, y Cyngor sydd â gofal Sêl Gyffredin y Brifysgol a'r Cyngor yn unig a gaiff ei defnyddio. Mae Clerc y Cyngor yn gyfrifol i'r Cyngor am ddiogelwch y Sêl ac am awdurdodi ei defnydd yn unol â'r telerau sydd wedi'u nodi yn Ordinhad II, 11.

27. Y canlynol yn unig all lofnodi dogfennau sydd â'r Sêl wedi'i gosod arnynt:

   (a) yr Is-Ganghellor, (neu Ddirprwy Is-Ganghellor sy’n gweithredu ar ran yr Is-Ganghellor); ynghyd ag un o’r canlynol

   (b) Cadeirydd y Cyngor (neu Is-gadeiryddion y Cyngor sy’n gweithredu ar ran y Cadeirydd); Dirprwy Is-Ganghellor; Pro Is-Ganghellor; Clerc y Cyngor.

28. Bydd y Clerc yn ceisio cadarnhad ysgrifenedig gan yr Is-Ganghellor neu Ddirprwy Is-Ganghellor fod dogfen wedi’i harchwilio’n briodol cyn gosod y Sêl.

29. Fel arfer bydd y Clerc yn bresennol pan osodir y Sêl ond gall awdurdodi aelod o’i staff i osod y Sêl yn ei absenoldeb ef/hi. Rhaid rhoi’r awdurdodiad hwn yn ysgrifenedig.

**Awdurdod i Gyflawni Dogfennau**

30. Dan Adran 333 o *Ddeddf Elusennau 2011*[1], gall y Cyngor roi’r awdurdod i unrhyw ddau neu fwy o’i aelodau gyflawni dogfennau yn enwau ac ar ran y Cyngor cyfan er mwyn rhoi

---

[1] ***Deddf Elusennau 2011 (ar gael yn Saesneg yn unig).*** **Section 333: Conferral of authority to execute documents**

(1)Charity trustees may, subject to the trusts of the charity, confer on any two or more of their body—

(a)a general authority, or

(b)an authority limited in such manner as the charity trustees think fit,

to execute in the names and on behalf of the charity trustees documents for giving effect to transactions to which the charity trustees are a party.

(2)Any document executed in pursuance of an authority under subsection (1) is of the same effect as if executed by the whole body.

(3)An authority under subsection (1) —

(a)suffices for any document if it is given in writing or by resolution of a meeting of the charity trustees, despite the want of any formality that would be required in giving an authority apart from that subsection;

(b)may be given so as to make the powers conferred exercisable by any of the charity trustees, or may be restricted to named persons or in any other way;

(c)subject to any such restriction, and until it is revoked, has effect, despite any change in the charity trustees, as a continuing authority given by the charity trustees from time to time of the charity and exercisable by such charity trustees.

(4)In any authority under this section to execute a document in the names and on behalf of charity trustees there is, unless the contrary intention appears, implied authority also to execute it for them in the name and on behalf of the official custodian or of any other person, in any case in which the charity trustees could do so.

(5)Where a document purports to be executed in pursuance of this section, then in favour of a person who (then or afterwards) in good faith acquires for money or money’s worth—

(a)an interest in or charge on property, or

(b)the benefit of any covenant or agreement expressed to be entered into by the charity trustees,

it is conclusively presumed to have been duly executed by virtue of this section.

(6)The powers conferred by this section are in addition to and not in derogation of any other powers.

mewn grym drafodion y mae'r Cyngor yn barti iddynt. Mae unrhyw ddogfen a gyflawnir yn y modd hwn yn cael yr un effaith â phe bai wedi'i chyflawni gan y corff cyfan.

31. Mae'r Cyngor wedi penderfynu y gellir cyflawni'r awdurdod hwn ar ei ran gan ddau ymddiriedolwr, y mae'n rhaid i o leiaf un ohonynt fod yn aelod annibynnol o'r Cyngor. Mae'r awdurdod hwn yn barhaus tan iddo gael ei ddiddymu.

**Sarah Clark**
**Clerc y Cyngor**

**Dyddiad cymeradwyaeth y Cyngor: 29 Medi 2022 a 24 Tachwedd 2022**
**Dyddiad dod i rym: 25 Tachwedd 2022**
**I'w adolygu: Medi 2023**
**Fersiwn 1.5**